# Poeni am arian?

## Mae cefnogaeth ar gael yng Nghastell-nedd Port Talbot



## Tri cham i ddod o hyd i opsiynau a lleoedd i gael help

## Cam 1: Beth yw'r broblem?

### Does gen i ddim arian yn sydyn

- Colli swydd neu lai o oriau
- Arian wedi'i atal
- Wedi colli arian
- Traul annisgwyl
- Trychineb (e.e. llifogydd neu dân)
- Perthynas wedi chwalu
- Sancsiwn (gweler opsiwn 5)

**Gweler opsiynau 1 2 6**

### Does gen i ddim digon o arian

- Rwy'n gorfod penderfynu rhwng bwyd, tanwydd, rhent neu gredyd ffôn symudol
- Incwm isel
- Contract dim oriau
- Tâl Salwch Statudol yn rhy isel
- Wynebu colli swydd
- Dwi ddim yn siŵr os ydw i'n gymwys am gymorth
- Newid mewn amgylchiadau

**Gweler opsiynau 1 2**

### Mae gennyf ddyled

- Rhent neu Dreth y Cyngor
- Nwy a thrydan
- Benthyciadau diwrnod cyflog
- Mae arnaf arian i ffrindiau neu deulu
- Ad-daliadau budd-daliadau

**Gweler opsiwn 3**

### Rwy'n aros am daliad neu flaenswm budd-dal

- Cais newydd am fudd-dal
- Mae fy nhaliad wedi'i oedi
- Rwy'n aros am benderfyniad

**Gweler opsiynau 1 4**

## Cam 2: Beth yw rhai o'ch opsiynau?

### 1 Cynlluniau Cymorth Llywodraeth Cymru a'r Cyngor

Gall Cronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru gynnig Taliad Cymorth Brys (EAP) i helpu gydag eitemau hanfodol, fel bwyd, nwy, trydan neu ddillad os ydych chi'n profi caledi ariannol sylweddol, neu os ydych chi mewn sefyllfa o argyfwng ac angen cefnogaeth ariannol ar unwaith. Gall pobl ar incwm isel fod yn gymwys hefyd i dderbyn Budd-dal Tai, Gostyngiad yn Nhreth y Cyngor neu Daliad Disgresiwn at Gostau Tai gan y cyngor. Bydd hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau presennol ac a ydych chi'n talu rhent a/neu Dreth y Cyngor – i gael rhagor o fanylion ewch i 'Rhagor o Gefnogaeth gan y Cyngor' yng Ngham 3.

### 2 Cynyddu'ch Incwm i'r Eithaf

Gall unrhyw un sy'n ei chael hi'n anodd yn ariannol gael gwiriad budd-daliadau a siarad â chynghorydd i gael cyngor cyfrinachol am ddim. Gall gwiriad budd-daliadau sicrhau eich bod yn derbyn yr holl arian y mae gennych hawl iddo, yn enwedig os yw'ch amgylchiadau wedi newid yn ddiweddar. Gallai siarad â chynghorydd hefyd eich helpu i ddod o hyd i fargeinion rhatach ar bethau fel nwy a thrydan a gwneud yn siŵr nad ydych yn colli'r cyfle i gael pethau fel prydau ysgol am ddim.

### 3 Cyngor ar Ddyledion

Gall unrhyw un fynd i ddyled. Gall cyngor a chymorth am ddim eich helpu i ddod o hyd i ffyrdd o reoli'ch dyledion a lleihau faint rydych yn ei dalu bob mis.

### 4 Blaenswm Budd-daliadau

Os ydych wedi gwneud hawliad newydd am fudd-dal ac rydych mewn caledi ariannol wrth aros am eich taliad cyntaf, efallai y gallwch gael blaenswm i fforddio pethau fel rhent neu fwyd. Mae'n bwysig cael cyngor cyn cymryd blaenswm. Rhaid talu blaendaliadau budd-daliadau yn ôl, a chymerir yr arian o'ch taliadau budd-dal yn y dyfodol (benthyciad).

### 5 Taliad Caledi

Os ydych wedi cael sancsiwn gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, efallai y gallwch ofyn am daliad caledi gan y Ganolfan Waith. Nid yw taliadau caledi bob amser yn cael eu talu ar unwaith, ac nid ydynt ar gael i bawb. Mae angen talu taliadau caledi Credyd Cynhwysol yn ôl (benthyciad), ond does dim rhaid gwneud hyn ar gyfer taliadau caledi Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (nid benthyciad yw'r rhain).

### 6 Herio Penderfyniad

Gallwch herio penderfyniad budd-dal os yw'ch budd-dal wedi'i atal/ei sancsiynu/ei leihau/ei wrthod neu os ydych wedi cael eich gordalu. Mae angen herio'r rhan fwyaf o benderfyniadau budd-daliadau o fewn mis.

## Cam 3: Ble gallaf gael hyd i help? Am gymorth cyfrinachol am ddim.

### Cronfa Cymorth Dewisol

**Cael gwybod ydych chi'n gymwys a gwneud cais i'r Gronfa Cymorth Dewisol**
0800 859 5924 (rhadffôn)
www.gov.wales/discretionary-assistance-fund-daf/how-apply

### CYNGOR AR BOPETH

**Cyngor ar Bopeth Abertawe Castell-nedd Port Talbot**
**Cyngor ar fudd-daliadau, dyled, tai a mwy**
0808 278 7926 (rhadffôn)
help@citizensadvicesnpt.org.uk
www.citizensadvicesnpt.org.uk
Advicelink Cymru 0808 702 2020
**Help gydag opsiynau:** 1 2 3 4 5 6

### LLINELL GYMORTH AMLIEITHOG CYMRU

**Gwybodaeth am hawliau lles, tai a chyngor am gyflogaeth mewn amrywiaeth o ieithoedd**
0300 222 5720
07537 432 416 (testun)
www.bame.wales
**Help gydag opsiynau:** 1 2 4 5

### HAWLIAU LLES CASTELL-NEDD PORT TALBOT

**Gall Tîm Hawliau Lles y Cyngor helpu gyda gwirio budd-daliadau, ceisiadau a herio penderfyniadau**
01639 685 225 | www.npt.gov.uk/1345
welfarerights@npt.gov.uk
**Help gydag opsiynau:** 1 2 3 4 5 6

### RHAGOR O GEFNOGAETH GAN Y CYNGOR

**Budd-dal Tai a Thaliadau Disgresiwn at Gostau Tai**
01639 686 838 | housing.benefits@npt.gov.uk
www.npt.gov.uk/1076

**Gostyngiad yn Nhreth y Cyngor (Budd-dal Treth Cyngor)**
01639 686 838 | housing.benefits@npt.gov.uk
www.npt.gov.uk/1078

**Prydau Ysgol am ddim**
01639 763 515 | fsm@npt.gov.uk
www.npt.gov.uk/1317

**PDG (Grant Gwisg Ysgol)**
01639 763 515
www.npt.gov.uk/schooluniformgrant

**Gwasanaeth Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot**
**Cefnogaeth a chyngor i bobl ifanc (11 i 25)**
01639 763 030 | www.npt.gov.uk/23665

**Cydlynwyr Ardal Lleol**
**Cysylltu â gwasanaethau iechyd a llesiant lleol**
01639 686 868 | www.npt.gov.uk/7288

### CRISTNOGION YN ERBYN TLODI

**Elusen cwnsela ynghylch dyledion**
0800 328 0006 (rhadffôn) | www.capuk.org
**Help gydag opsiwn:** 3

### SHELTER CYMRU

**Cyngor annibynnol ynghylch tai, gan gynnwys cefnogaeth i ddelio ag ôl-ddyledion morgais a rhent**
01792 469 400 | www.sheltercymru.org.uk
swansea@sheltercymru.org.uk
**Help gydag opsiwn:** 3

### CEFNOGAETH I BOBL DROS 50

**Age Connects – Castell-nedd Port Talbot**
**Cyngor ar fudd-daliadau a chefnogaeth arall i bobl 50 oed a throsodd a'u teuluoedd**
01639 617 333 | info@acnpt.org.uk
ageconnectsnpt.org.uk/welfare-benefits-advice
**Help gydag opsiynau:** 1 2 3 4 5 6

**Age Cymru**
**Help a chefnogaeth i bobl hŷn sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot**
01792 648 866
enquiries@agecymruwestglamorgan.org.uk
www.ageuk.org.uk/cymru/west-glamorgan
**Help gydag opsiynau:** 1 2

## Cymorth Arall

**Efallai bydd gan Gymdeithasau Tai hefyd ymgynghorwyr sydd ar gael i helpu eu tenantiaid**

**Turn2Us**
**Gwybodaeth a chefnogaeth ariannol**
0808 802 2000 | www.turn2us.org.uk
Benefits-calculator-2.turn2us.org.uk

**Money Helper**
**Cyngor i'ch helpu i wella eich sefyllfa ariannol**
0800 138 7777 | www.moneyhelper.org.uk

**Y Sefydliad Cyngor ar Ddyledion**
**Cefnogaeth a chyngor i unrhyw un sy'n pryderu am fenthyciadau, credyd a dyled**
0800 043 4050 | www.debtadvicefoundation.org

**National Debt Line**
**Cyngor annibynnol am ddim ynghylch dyledion dros y ffôn ac ar-lein**
0808 808 4000 | www.nationaldebtline.org

**Step Change**
**Cyngor am ddim ynghylch dyledion a rheoli arian**
0800 138 1111 | www.stepchange.org

**Gyrfa Cymru**
**Help i gynllunio eich gyrfa, paratoi i gael swydd, a chael hyd i'r prentisiaethau, y cyrsiau a'r hyfforddiant cywir**
0800 028 4844 | careerswales.gov.wales

# Cymorth Arall

### Cymru Gynnes: Cartrefi Iach, Pobl Iach
**Cefnogaeth a gwybodaeth i'ch helpu i fyw mewn cartref mwy cynnes, diogel a iach**
hhhp@warmwales.org.uk
01656 747 622
www.warmwales.org.uk

### Byw Heb Ofn
**Gwybodaeth a chyngor ynghylch cam-drin domestig a thrais rhywiol**
Llinell Gymorth (24/7): 0800 8010 800
Testun: 0786 0077 333
info@livefearfreehelpline.wales
www.gov.wales/live-fear-free

### MIND Castell-nedd Port Talbot
**Cefnogaeth i unigolion sy'n byw gyda diagnosis iechyd meddwl neu'n profi trallod emosiynol**
01639 643 510
info@nptmind.org.uk
www.nptmind.org.uk

### National Energy Action: Gwasanaeth Cynghori Cartrefi Cynnes a Diogel
**Cyngor i berchnogion tai ar filiau ynni a chadw'n gynnes ac yn ddiogel gartref**
0800 304 7159
www.nea.org.uk/wash-advice

### Nest
**Cyngor am ddim ar ynni yn y cartref a gwelliannau**
0808 808 2244 | www.nest.gov.wales

### Undeb Credyd Castell-nedd Port Talbot
**Gwasanaethau ariannol fforddiadwy, diffwdan**
0333 006 3002
www.celticcreditunion.co.uk/neath-port-talbot

### Talebau Dechrau Iach
**I helpu i brynu ffrwythau, llysiau a llaeth os ydych chi ar incwm isel ac yn disgwyl baban, neu mae gennych chi blentyn o dan 4.** Cyflwynwch gais ar-lein: www.healthystart.nhs.uk

# Ar gyfer Ffoaduriaid, Ceiswyr Lloches a Phobl Fudol na allant droi at Gronfeydd Cyhoeddus (NRPF)

### Project 17
**Cyngor ar opsiynau tai ac arian ar gyfer teuluoedd lle mae plant yn wynebu tlodi difrifol/digartrefedd oherwydd na allant droi at Gronfeydd Cyhoeddus (NRPF)**
07963 509 044 | www.project17.org.uk

### Talebau Dechrau Iach
**I helpu i brynu ffrwythau, llysiau a llaeth os ydych chi ar incwm isel ac yn disgwyl baban, neu mae gennych chi blentyn o dan 4.**
Cyflwynwch gais ar-lein:
www.healthystart.nhs.uk

### Tîm Cefnogi Lleiafrifoedd Ethnig a Ieuenctid (EYST)
**Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid yn Hwb Noddfa EYST yn cynnig cyngor ar y broses ceisio lloches, cefnogaeth NASS, budd-daliadau, arian a thai (lleolir yn Abertawe)**
07394 923 317 neu 07512 792 182
info@eyst.org.uk

### Prosiect Unity
**Cefnogaeth i ddileu'r amod NRPF os yw hynny'n berthnasol a chefnogaeth arall**
www.unity-project.org.uk

## Am y daflen hon

Seiliwyd y daflen hon ar yr hyn a ddysgwyd ym mhrosiect A Menu for Change yn yr Alban, ac mae wedi cael ei datblygu gyda chefnogaeth gan y sefydliadau isod. Mae'r taflenni 'Worrying About Money?' ar gael ar-lein yn www.foodaidnetwork.org.uk/cash-first-leaflets.

Diweddarwyd yr wybodaeth yn y daflen hon ddiwethaf ar: 14/12/21. Adborth? Beth oedd yn ddefnyddiol i chi am y canllaw hwn? www.bit.ly/moneyadvicefeedback

cyngor ar bopeth | citizens advice — Abertawe Castell-nedd Port Talbot / Swansea Neath Port Talbot

Cyngor Castell-nedd Port Talbot / Neath Port Talbot Council

INDEPENDENT FOOD AID NETWORK